

Cofio Euros: gwahoddiad i gyfarfod lansio cyfrol arbennig i gofio am Euros Wyn Jones

Ergyd drom i'w deulu a'i gydnabod oedd marwolaeth gwbl annisgwyl y Parchedig Euros Wyn Jones, Llangefni, ddiwedd Tachwedd 2018. Ac yntau'n weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist ers 1977 ac yn athro a hyfforddwr i bregethwyr a gweinidogion ers 1992, yr oedd iddo gylch eang o gyfeillion a chydabod a frawychwyd gan y newydd am ei farwolaeth. Heb unrhyw rybudd, cymerwyd ef oddi wrthym o ganol ei gyfrifoldebau teuluol a phrysurdeb ei waith.

Wrth ei goffáu, mae John Pritchard, golygydd y gyfrol, yn ei deyrnged angladdol iddo'n cloi drwy ddweud:


Dyn pobl oedd Euros, yn mwynhau cwmniäeth, boed wrth ei waith, ymhlith cyfeillion, neu ar y cae criced yn nyddiau Henllan Amgoed: cymeriad hwyliog a fedrai chwerthin yn braf; cwmniwr diddan, a'i sgwrs wastad yn ddifyr. Gallai drafod pethau mawr a bach, ond fyddai pethau sylweddol a phethau'r Ffydd a'r Efengyl fyth yn bell o'i feddwl a'i sgwrs. Roedd ganddo ofal mawr am aelodau ei eglwysi, ei gymdogion, ei ffrindiau, a'i gydnabod; a bu'n garedig a chymwynasgar ac yn ffrind da i'w gymdogion ar hyd y blynyddoedd.

Mae Densil Morgan hefyd yn crynhoi ei atgofion:

Bydd ei gyfoeswyr colegol yn cofio am gadernid ei bersonoliaeth, am ei ddiwydrwydd fel myfyriwr ac am bendantrwydd athrawiaethol a aeth law yn llaw â dynoliaeth iach. Bydd gan ei gyd-weinidogion eu hatgofion am deyrngarwch sefydliadol a oedd y tu hwnt i'r cyffredin, tra bydd ei gyd-academyddion yn cofio amdano'n ymhyfrydu mewn ysgolheictod clasurol ac yn gwerthfawrogi'n fawr oludoedd dysg. Prin fod yna weinidog arall yn ei genhedlaeth a gymerodd ddiwinyddiaeth Gristnogol gymaint o ddifrif, gan bwysleisio'i phwysigrwydd a mawrygu ei harwyddocâd. Athro a dehonglwr ydoedd yn y pulpud, yn yr ystafell ddosbarth ac yn ei weithiau cyhoeddedig, gyda'i farw anhymig yn gadael bwlch rhwth ar ei ôl. Braint oedd cael ei gyfrif yn gyfaill. Mae'r hiraeth yn parhau.

Meddai Beti-Wyn James:

Cofiaf Euros fel athro a ffrind da, ac fel gŵr â pharch ganddo tuag at eraill: gŵr hynaws ac annwyl a wisgai wên fawr lydan, ond gŵr cadarn ei ffydd a'i argyhoeddiad yng Nghrist ei Waredwr. Roedd ganddo gymaint mwy i'w gynnig, ond diolchwn am yr hyn a gawsom. Hiraethwn ar ei ôl, gan



dreial yn galed iawn i beidio ag aros gyda'r meddylfryd fod ein bywydau yn dlotach o lawer hebddo, ond yn hytrach ddiolch am ba mor gyfoethog y mae'n bywydau, yn arbennig bywydau ei fyfyrwyr, o fod wedi ei gael. Bydded i fywydau Euros a'i debyg a aeth o'n blaen fod yn ysbrydoliaeth i ni o ran y ffordd yr ydym yn byw ein bywydau heddiw.

Cyfeiria Dewi Myrddin Hughes ato fel pregethwr grymus, gan grynhoi, 'I Euros, roedd pregethu'r "Gair a roddwyd un waith i'r saint" yn hanfodol, doed a ddelo. Tasg hanfodol yw cyhoeddi'r hyn a wnaeth Duw yn Iesu Grist. Yn ei ysgrif goffa i Euros ym Mlwyddiadur Undeb yr Annibynwyr, cyfeiria John Pritchard at ei Galfiniaeth ddiysgog: 'Ar y graig honno y safodd Euros, a chafodd nerth i ddal ati trwy law a hindda.'

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Cofio Euros

(parhad o dudalen 1)

Gan mai dyn y llyfrau oedd Euros bu i sawl un grybwyll mai da o beth fyddai cael cyfrol i'w goffáu. Diolch i'w ffrind agos, John Pritchard, am fynd ati i wireddu hynny, ac am ei waith yn saerño'r gyfrol, gan wahodd cyfranwyr sy'n cynrychioli gwahanol agweddau ar fywyd a gwaith Euros. A diolch i bawb a gyfrannodd at y gyfrol: mae'r cyfan yn tystio i gymeriad arbennig ac unigryw Euros. Diolch hefyd i Gari Wyn, perchennog Ceir Cymru, am ei nawdd ariannol at gyhoeddi'r gyfrol. Yr ysgogiad cyntaf i fynd ati i'w pharatoi oedd clywed iddo ddweud wrth Lowri, yn fuan wedi marwolaeth Euros, 'Mae'n rhaid cael cyfrol i gofio dy dad.' Diolch am yr anogaeth, y diddordeb a'r nawdd.

Meddai Aled Davies:

Braint arbennig i Gyhoeddiadau'r Gair oedd derbyn y gwahoddiad i gyhoeddi'r gyfrol hon. Am chwarter canrif a mwy bu Euros yn gefnogwr a chyfrannwr cyson i waith cyhoeddi'r wasg, ac mae ein dyled yn fawr iddo am y gefnogaeth gyson honno. Roedd yn mwynhau ysgrifennu, yn mwynhau cyhoeddi ac yn mwynhau bod yn rhan o'r holl broses olygyddol, gan gymryd diddordeb byw ym mhob rhan o'r broses. A mwy na hynny hefyd, roedd ganddo diddordeb wedi i'r cyfrolau weld golau dydd a



Y tu allan i Gapel Smyrna, Llangefni, 2016

byddai'n eu cario o sesiwn hyfforddi i Gwrdd Chwarter er mwyn eu gwerthu i selogion yr eglwysi. Cytunodd i baratoi mwy nag un esboniad ar gyfer dosbarthiadau oedolion ein hysgolion Sul a chafodd y cyfrolau hynny dderbyniad gwresog iawn. Aeth ati i gyfieithu 'Cwrs Emaus', sef dwy ffeil enfawr oedd yn cynnwys dros 30 o sesiynau ynghylch bod yn ddisgybl i Iesu Grist.

Cafwyd ganddo hefyd y gyfrol *Blas ar Gristnogaeth Cymru*, gwaith ei brifathro yng Ngholeg Bala-Bangor, R. Tudur Jones, gyda phennod ar hanes diweddar Cristnogaeth yng Nghymru wedi ei hychwanegu gan Euros ei hun. Un dyfyniad ganddo yn y gyfrol yw: 'I ymateb i her y newid mawr sydd ar droed yng nghymunedau Cymru mae galw am arfogi meddwl pobl nid yn unig yn y Beibl a'i neges ond hefyd yng nghyfoeth yr etifeddiaeth sydd gennym fel Cristnigion yng Nghymru ... pa fath



Cyfarfod cyhoeddi'r gyfrol *Blas ar Gristnogaeth Cymru*, Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd, 2018.

o ddiwylliant fydd crefydd y Gymru newydd yn ei gynhyrchu a pha fath o ffurfiau a strwythurau fydd eu hangen i roi mynegiant i hynny?' Fe hoffodd Euros ddiwyg a fformat y gyfrol honno. Roedd wedi bwriadu paratoi cyfrol arall gyffelyb fel rhan o gyfres, sef *Blas ar Athrawiaeth Gristnogol*, ond gwaetha'r modd ni chafodd gyfle i wireddu'r freuddwyd honno. Efallai y gwêl rhywun arall yn dda yn y dyfodol i gydio yn y prosiect hwnnw.

Mae ein diolch i Euros yn sylweddol iawn. Diolch am ei egni, ei frwdfrydedd, ei hynawsedd a'i gariad at bopeth ynglŷn ag achos Iesu Grist.

Mae Sion Aled yn crynhoi ei gyfraniad yn yr englyn hyfryd hwn:

O durio i ddyfnderoedd – athrawiaeth
a throï ei goludoedd
yn hyder i laweroedd,
athro dan un Athro oedd.

LANSIAD LLYFR

Nos Iau 8yh 24ain o Fehefin 2021

Mae'n bleser gan Cyhoeddiadau'r Gair eich gwahodd i noson lansio rhithiol


Cyfrol Goffa i Euros Wyn Jones

Cofio Euros: cyfrol wedi ei golygu gan John Pritchard.



ZOOM: **886 7338 1723**

Mwy o wybodaeth:
aled@ysgolsul.com | 01766 819120



Bydd cyfle ar y noson hefyd i archebu copi ar lein gyda chludiant am ddim.

'Oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon, ac fe gewch orffwystra i'ch eneidiau' (Mathew 11:29)

Adolygiad o *Gentle and Lowly: the heart of Christ for sinners and sufferers* gan Dane C. Ortlund (Wheaton, Illinois, USA: Crossway, 2020)

Darllenais y gyfrol hon fel aelod o grŵp darllen gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Mae'n gyfrol fechan sy'n trafod testun mawr, sef y cariad yng nghalon yr Iesu. Ceir ynddi dair ar hugain o benodau byr, dadlennol a threiddgar. Mae gwaith ymchwil yr awdur yn eang a thrylwyr, ac yn seiliedig yn bennaf ar ddsygeidiaeth athrawon Beiblaidd yr 1600au a chyfnod y Piwritaniaid. Cawn gyfle i ddarganfod Goodwin, Sibbes, Bunyan ac Owen, ymhlith eraill, a dyfynnir yn helaeth o'u gweithiau cyhoeddiedig. Dyma'r 'channels' (fel y cyfeiria atynt yng nghyflwyniad ei gyfrol) sy'n ein galluogi i ystyried o'r newydd adrannau cyfarwydd o'r Beibl sy'n berthnasol i'n dealltwriaeth o gariad anferthol yr Iesu.

Mae rhai penodau'n fwy heriol na'i gilydd ac angen eu darllen fwy nag unwaith. Rhaid canolbwyntio er mwyn dilyn dadleuon Ortlund. Mae'n cymryd amser i ymgyfarwyddo â'i arddull a'i ieithwedd. Ond mae'n werth dyfalbarhau, ac mae ei ddetholiad o adnodau adnabyddus o'r Beibl o gymorth i'w darllen a'u deall.

Bu trafod y gyfrol mewn grŵp darllen yn gyfle i mi glywed dehongliadau a safbwyntiau gwahanol gan eraill. Roeddem yn cyflwyno penodau penodol yn ein tro, cyn rhannu'n grwpiau llai i'w trafod yn fanylach. Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r grŵp, a dysgais lawer o'n trafodaethau. Hebddynt, ni fyddai'r gyfrol wedi cael cymaint o argraff arnaf.

Y cwestiwn oesol y mae'r gyfrol yn ei holi yw: Pwy yw'r Iesu? Dyma drafodaeth ddeallus sydd nid yn unig yn cyflwyno ond yn rhoi'r cyfle i adnabod y cariad yng nghalon Iesu. Mae'n cynnig atebion i gwestiynau pellgyrhaeddol Ortlund ar ddechrau ei gyflwyniad: 'Who is he? Who is he *really*?' Nid yw'n honni bod yr atebion i gyd yn y gyfrol, ond mae'n gyfraniad pwysig tuag at ddeall mawredd dyfnder cariad yr Iesu. O'i darllen gellir gwerthfawrogi'r cyngor sy'n cloi'r gyfrol:


Go to him. All that means is, open yourself up to him. Let him love you. The Christian life boils down to two steps:

1. Go to Jesus.
2. See #1.

Ni fydd y gyfrol at ddant pawb, ond fy ngobaith yw na chewch eich siomi ganddi. Cefais fy nghyfareddu ac mae'r sylwadau canlynol yn adolygiad Russell Moore ohoni yn agos iawn i'w lle:

In this timely work, Dane Ortlund directs our attention back to the person of Jesus. Centered on the Scriptures and drawing upon the best of the Puritan tradition, Ortlund helps us see the heart of God as it is revealed to us in Christ. He reminds us not only of Jesus's promises of rest and comfort, but of the Bible's vision of Jesus: a kind and gracious King.

*Rhys Bebb Jones,
Cydlynnydd Hyfforddi a
Swyddog Datblygu Coleg Trefeca*



Cynhadledd Flynyddol Cristnogaeth 21

'HALELIWIA AM HERESI'

3.00 p.m. dydd Sul 27 Mehefin
gyda

JOHN BELL

awdur, cerddor, pregethwr a darlledwr o gymuned Iona, yr Alban



I gofrestru, ehostiwch:
cristnogaeth21@gmail.com
CYN 18 Mehefin

Byddwch yn derbyn manylion sut i dalu,
a dolen i ymuno ar Zoom

Cyfyngir nifer y dyfeisiau i 100
Tâl ymuno: £8 y ddyfais



Dalier Sylw – Newid Cyfeiriad

Newid cyfeiriad yng Nghapel Tegid, y Bala
Ysgrifennydd Eglwys Unedig Tegid a Llanfor, y Bala
Menna Ll Green, 23 Awel y Coleg, Ffordd Ffrydan, Y Bala,
Gwynedd.

Rhif ffôn: 01678520123; e-bost: mennagreen@tiscali.co.uk

Y Cefnogwyr a'r Cyfnerthwr

Wrth i nifer yr achosion o'r Covid leihau, fe fydd cefnogwyr chwaraeon yn cael mynd i feysydd chwarae i wyllo a chefnogi eu hoff dîm unwaith eto yn ystod misoedd Mai a Mehefin. Gall hyd at 10,000 fynd i feysydd mawr Uwch-gynghrair Pêl-droed Lloegr, a 4,000 i stadia llai, neu hyd at 50% o'r uchafswm allai wyllo gêm. Fe wnaeth trefnwyr y Premier League ohirio gêm olaf ond un y tymor tan 18 a 19 Mai er mwyn cynnwys y cefnogwyr. Mae swyddogion y clybiau wedi bod yn chwarae recordiad o sŵn cefnogwyr mewn gemau pêl-droed a rygbi, ac mae wedi bod yn rhyfedd clywed eco llais y dyfarnwr a'r chwaraewyr mewn meysydd gwag.

Fe fu chwarter nifer llawn y gwylwyr yn gwylio tennis yn Rhufain yn ddiweddar, a dywedodd Novak Djokovic am y cefnogwyr, 'Ro'n i'n gweld eisiau'r dorf yn ofnadwy ... roedd yn hyfryd i'w gweld yn ôl.'

Mae cynlluniau i ddod â chefnogwyr yn ôl yng Nghymru mewn sawl camp cyn diwedd Mehefin, â chwaraewyr pob camp yn dweud bod y cefnogwyr yn gallu ychwanegu'n sylweddol at safon eu perfformiad.



Novak Djokovic Trwy ganiatâd Creative Commons Attribution-Share Alike 2.0 Generic <https://flickr.com/photos/43555660@N00/42895052122>

Ar 23 Mai fe fuom yn cofio'r Pentecost, pan gyflawnwyd yr addewid i anfon yr Ysbryd Glân i lawr ar ddilynwr yr Arglwydd Iesu. Hwn oedd 'addewid y Tad' yn ogystal ag addewid y Mab. Fel y bu'r Arglwydd gyda'r Israeliaid ar hyd eu taith drwy'r anialwch i wlad Canaan, mewn colofn niwl a thân ac fel craig ysbrydol, roedd yn benderfynol o fod gyda ni yn ystod ein taith drwy'r byd nes cyrraedd ein cartref yn y nef.

Wrth roi comisiwn i'w ddisgyblion, fe ddywedodd ein Harglwydd y byddai gyda nhw yn wastad, hyd ddiwedd amser. Wrth addo'r Ysbryd Glân, y cyfnerthwr, dywedodd Iesu y byddai'n gofyn i'r Tad ac fe fyddai yntau'n rhoi i'w bobl ddi-ddanydd arall 'i fod gyda chwi am byth'.

Addewid i Gristnogion yn unig yw hwn, ac nid i'r byd di-gred, oherwydd eu bod nhw'n adnabod yr Ysbryd: 'oherwydd gyda chwi y mae'n aros ac yn och chwi y bydd'. Yna, mae'n dweud ei fod yn addewid i'r sawl sy'n ei garu ac yn ufudd iddo; dyma'r un y mae'r Tad yn ei garu, 'ac fe ddown ato a gwneud ein trigfa gydag ef' (Ioan 14:16, 17, 23).



Dyma addewid hyfryd i ni: 'Dyn ni ddim ar ein pen ein hunain yn y bywyd Cristnogol ar y ddaear, mae Duw y Tad a'r Mab gyda ni ym mherson yr Ysbryd Glân – fel Cyfnerthwr, Cefnogwr, Diddanydd. Dywedodd yr Arglwydd Iesu hefyd y byddai'r Ysbryd Glân yn ei ogoneddu Fe, ac yn cymryd o'i eiddo i'w roi i ni.'

Mae'r Ysbryd wedi llywio'r apostolion i gyfansoddi'r Testament Newydd, ac mae'n dod â Gair Crist i ni trwy'r Ysgrythur hefyd. Trwy wirioneddau'r Gair mae'n bywhau pechadur sydd yn farw mewn camweddau a phechodau, nes ei fod yn cael ei eni o'r newydd. Yn yr un modd, mae'n ein harwain i edifarhau ac i bwysio'n llwyr ar Iesu Grist a'i aberth yn ein lle am faddeuant a derbyniad llawn gan Dduw. Yr Ysbryd sydd yn tywallt cariad Duw yn ein calonnau i roi sicrwydd i ni ein bod yn blant i Dduw, ac mae'n gweithio ynom i ddwyn ffrwythau, sy'n brawf ein bod yn bobl Iesu Grist. Yn wir, trwy waith yr Ysbryd Glân daw bywyd Duw i enaid dyn, bywyd na all ei golli byth mwy.

Wrth i ni weld cefnogwyr yn dod i leisio'u cefnogaeth mewn person ym myd y chwaraeon unwaith eto, gadewch i ni ddiolch am y Cyfnerthwr a anfonwyd i'n bywhau a'n chefnogi ni. Gadewch i ni weddio bob dydd am gael ein llenwi â'r Ysbryd ac am iddo gael ei dywallt eto ar ein gwlad, er mwyn gogoneddu Iesu Grist.

*John Treharne
Llwynhendy*

Annwyl Olygydd,

Annwyl Ddarllenwyr,

Hoffwn dynnu eich sylw at gyfrol arbennig, *Syr DJ James: Ei Fywyd a'i Ddylanwad*, fydd yn cael ei chyhoeddi cyn hir gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen. Cyfrol yw hon yn croniclo hanes Syr David James, sylfaenydd yr Ymddiriedolaeth, ac yn rhannu ychydig o wybodaeth am y gwaddol a adawodd ef i Gymru a'i phobl. Gŵr a'i wreiddiau'n ddwfn yng Ngheredigion a Chymru oedd David James, ond bu'n byw y rhan fwyaf o'i oes y tu allan i'w wlad enedigol, gan wneud ei ffortiwn mewn gwahanol fusnesau yn ardal Llundain a thu hwnt. Ond yr oedd yn benderfynol o adael ei gyfoeth i Gymry'r dyfodol, ac mae'r gronfa'n parhau i ddsbarthu grantiau i eglwysi a chapeli Cymru, yn ogystal â myfyrwyr uwchraddedig ac eisteddfodau.

Awdur y gyfrol hon yw Richard Morgan, a fu'n Ysgrifennydd Gweithredol yr Ymddiriedolaeth am dros ddeng mlynedd ar

hugain. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn, mae wedi bod yn ddiwyd iawn yn casglu gwybodaeth a lluniau ac yn ysgrifennu'r hanes.

Bydd y gyfrol ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Rydym yn y broses o gasglu tanysgrifiadau ar gyfer y ddwy gyfrol (pris £18 yr un, yn cynnwys postio), a byddwn yn cynnwys enwau'r holl danysgrifwyr yn y gyfrol a brynir ganddynt. Os hoffech danysgrifio, gofynnwn i chi gysylltu â Swyddfa Pantyfedwen cyn gynted â phosibl, ac **erbyn 16 Gorffennaf 2021 fan bellaf**. Gweler y manylion cyswllt isod.

Yn gywir

Gwenan Creunant

(Ysgrifennydd Gweithredol Ymddiriedolaeth

James Pantyfedwen)

Ffôn: 01970 612806

E-bost: post@jamespantyfedwen.cymru

Annwyl Olygydd,

Annwyl gyfeillion,

Caffysymbylu i ohebu yn dilyn llythyr Eifion Wynne yn *Cenn@d* yn ddiweddar a hefyd nifer o gyd-ddigwyddiadau eraill, gan gynnwys y sefyllfa drist gyda gwerthiant capel Bethania neu 'Gapel Tom Nefyn' yn Pistyll, ger Nefyn. Rwyf innau o'r farn fod angen i'r enwadau Anghydfurfiol, gan gynnwys fy enwad fy hun, Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, edrych o'r newydd ar ddefnydd i'r capeli niferus fydd yn debygol o gau yn y dyfodol yn ein broydd.

Mae'r Eglwys Wladol yn Lloegr wedi penderfynu addasu a gosod adeiladau a thir nad oes eu hangen mwyach ar gyfer cartrefi i bobl leol. 'Mission and not money' yw un o'i sloganau newydd. Rhaid ei llongyfarch ar y weledigaeth a'r penderfyniad i geisio bod o wasanaeth i anghenion y gymuned leol.

Adeiladwyd y capeli yn ein broydd gan ein cyndadau, gydag arian prin a llafur lleol, i wasanaethu'r gymuned leol. Onid rhesymol felly yw i ni heddiw fel aelodau eglwysig fynd ati i roi rhywbeth yn ôl yn lleol i'r cymunedau, trwy addasu a gosod unrhyw gapel a ddaw yn wag, yn hytrach na'i werthu ar y farchnad agored am bris. Caiff y rhelyw a werthir eu prynu a'u haddasu'n gartrefi i bobol ddŵad. Felly, pam na all yr enwadau Anghydfurfiol eu hunain wneud hyn, gan ateb anghenion sylweddol am gartrefi yn ein cymunedau lleol.

O brofiad yn ddiweddar, ac er gwaethaf ymdrechion glew Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, mae'r ddelwedd o 'Gaerdydd' yn parhau'n ddiffygiol, a hyn hyd yn oed gan swyddogion yn eglwysi'r enwad. Byddai rhoi cyfle i addasu a rhentu capel yn uned(au) yn ymdrech wirioneddol i wella delwedd EBC a phob enwad arall.

Fe ellid mynd i drefniant gyda Chymdeithasau Tai ar fater addasu/rhentu ayyb, gan ddefnyddio'r incwm sylweddol a ddeuai i ariannu prosiectau efengyl yn lleol ac i gynnal Cynllun Pensiwn EBC, cynllun y mae rhan sylweddol o arian gwerthiant capeli ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer.

Byddaf yn anfon y llythyr yma i fy Henaduriaeth fy hun, sef Conwy a Dyfrdwy. Rwyf hefyd am apelio ar aelodau o Henaduriaethau a llysoedd pob enwad i godi'r mater rhag blaen, fel y medrwn ddefnyddio adeiladau nad oes defnydd eglwysig iddynt mwyach i bwrpas yn ein cymunedau lleol. Dyna beth fyddai gweithredu efengyl Crist yn ein cymunedau yn yr 21ain ganrif. Mae 'ffydd heb weithredoedd yn farw', medd Iago ym mhennod dau o'i lythyr. Gweithredwn yn ei enw Ef.

Yn gywir,

Gwyn Williams

(Blaenor a Thrysorydd Bethel, Melin-y-coed)

ADNABOD

CYMERIADAU'R TESTAMENT NEWYDD

ACTAU'R APOSTOLION

Cyfes o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com/?page_id=804

Cymeriadau'r Testament Newydd 48 – Timotheus

Gwedd

Dduw pob gras a phob gobaith, agorwn ein calon, ein meddyliau a'n heneidiau o'r newydd i ti, gan dy wahodd i'n goleuo, ein cadarnhau yn y ffydd a'n harwain i'th wasanaethu. Amen.

Darllen: 2 Timotheus 1–2:14

Cyflwyniad

Ychydig a wyddom am gefndir Timotheus, ac eithrio ei fod wedi cyfarfod Paul yn Lystra yn ystod ail ymweliad yr apostol â'r dref. Gwyddom mai Groegwr oedd tad Timotheus a bod ei fam a'i fam-gu yn aelodau o'r eglwys ac yn llawn ffydd. Ystyr yr enw Timotheus yw 'anrhydeddu Duw', a bu'n gydymaith ifanc i Paul ar y teithiau cenhadol. Cyfeiria Paul ato fel 'mab annwyl yn y ffydd', a deallwn ei fod yn un o arweinwyr ail genhedlaeth yr Eglwys Fore. Bu'n gyfaill da i Paul ac yn berson yr oedd Paul yn ymddiried yn llwyr ynddo. Dywed traddodiad eglwysig i Timotheus aros yn Effesus fel gweinidog, ac iddo farw fel merthyr.

Derbyniodd ddau lythyr gan Paul sydd wedi eu cadw a'u cynnwys yn y Testament Newydd. Mae hynny yn ei dro yn dangos bod golygyddion y Testament Newydd yn derbyn bodydeunydd ynddynt yn cyflwyno Efengyl Iesu drwy law gair ysgrifenedig yr apostol. Tybed faint o lythyron Paul aeth ar goll, boed yn llythyron personol neu'n llythyron at yr eglwys? Roedd Timotheus yn un a anrhydeddodd Dduw ac a fu'n deyrngar i Paul. Derbyniodd fflam y ffydd er mwyn ei throsglwyddo i eraill. Tybir bod Paul wedi ysgrifennu'r ail lythyr at Timotheus ychydig cyn i Paul ei hun gael ei ddiennyddio. Bydd traddodiad yn dyddio'r llythyr tua OC 67.

Myfyrdod

Rydyn ni fel Cymry'n gyfarwydd â'r arfer o sôn am achau a chysylltiadau pobl, ac roedd yr Iddewon yn hoff o gofnodi cysylltiadau felly hefyd. Wyddom ni ddim byd am aelwyd Timotheus, ond drwy Paul, cawn ar ddeall beth oedd y cyswllt eglwysig i'w 'fab yn y ffydd'. Daw pobl i brofiad o ffydd drwy amrywiol ffyrdd, ac un ohonynt yw fod person yn cael ei 'fagu yn y ffydd'. Eto, nid drwy fabwysiad crefydd y rhiant y daw plentyn yr ysgol Sul yn Gristion o argyhoeddiad. Mae angen y profiad personol a'r ymrwymiad unigol i arddel Iesu.

Beth tybed oedd ein profiad personol ni? Ai dylanwad teulu, neu fod pobl eraill wedi cadarnhau ein hargyhoeddiad ac wedi hyrwyddo ein hymrwymiad i'r achos? Traddodiad, yn fwy na ffaith, yw cyfeirio at farwolaeth Timotheus fel un o ferthyrdod, ond mae'n ddigon hawdd credu hynny, wrth i'r Ymerodraeth Rufeinig ladd Cristnogion am iddynt arddel y ffydd.

Bydd y sawl a welodd werth mewn crefydd yn awyddus i'w rhannu ag eraill, ac mae'n braf darllen bod Timotheus yn enghraifft o berson a gredodd ac a rannodd y ffydd. Dyna yw un o nodweddion rhyfeddol yr Eglwys Gristnogol ar draws y canrifoedd. Does gennym ni ddim sy'n wahanol i genhedlaeth Timotheus o ran efengyl neu argyhoeddiad am yr hyn sydd i'w rannu am Iesu, a bod y ffydd Gristnogol yn esgor ar werthoedd ac ymddygiad anhunanol ac aberthol.

Bydd cenhadaeth yr eglwys fel tonnau'r môr, yn llanw ac yn drai - weithiau'n ferw o argyhoeddiad a thro arall yn dawel lonydd. Dywedir bod symudiad adain gwybedyn mewn un rhan o'r byd yn medru arwain at wyntoedd cryfion mewn rhan arall o'r byd. Bydd yr achos a'r effaith yn

bellgyrhaeddol mewn pob math o feysydd, boed yn wleidyddol, yn economaidd neu'n gymdeithasol. Prin y byddai Eunice a Lois wedi dychmygu y byddai eu gweddiâu hwy wedi cael sylw mewn llythyr a gafodd ei gynnwys mewn llenyddiaeth Gristnogol a gafodd ei gyfieithu i gynifer o ieithoedd byd. Beth, felly, yw effaith ein gweddiâu a'n hymddygiad ni ar blant heddiw ac arweinwyr yfory?

Gwedd

Diolch, Arglwydd, am ddylanwad y fam a'r fam-gu ar grwtyn ifanc, y gwelaist tithau'n dda i'w ddefnyddio i ledaenu terfynau dy deyrnas. Diolch am genhadaeth pob Timotheus ac am ddylanwad pob Eunice a Lois ar draws hanes. Boed i bob un ohonom sylweddoli ein cyfle a'n cyfrifoldeb i rannu ffydd â'r ifanc yn ein teulu a'n cymuned. Amen.

Trafod ac ymateb

- Beth yw dy dystiolaeth di am sut ddoist ti i adnabod Iesu Grist? Pwy fu'n ddylanwad arnat ti? Ai ffydd ar waith yn dy deulu neu brofiad arall o ras Duw yn dy dynnu at Iesu Grist sydd gennyt? Beth am gymryd y cyfle i feddwl am dy stori a sut y byddet ti'n mynd ati i'w rhannu?
- 'Cymer dy gyfran o ddioddefaint' (2 Timotheus 2:3) yw anogaeth Paul i Timotheus. Faint o bwyslais ddylid ei roi ar ddioddef dros y ffydd wrth ei throsglwyddo i'r ifanc?
- Rhyfeddwn mai yr un newyddion da yn eu hanfod am Iesu Grist a'r groes sydd gennym i'w trosglwyddo ag oedd gan Paul a Timotheus. Beth yw'r manteision a'r anfanteision sydd gennym ni o'u cymharu â chyfnod Paul a Timotheus?

S4C

Nos Sul, 6 Mehefin – Dechrau Canu, Dechrau Canmol, am 7:00yh

A hithau'n Wythnos Genedlaethol Gwirfoddolwyr, bydd Nia yn cwrdd â'r Parchedig Robert Townsend, offeiriad sy'n ymroi nid yn unig i gynnig achubiaeth ysbrydol ond yn fodlon torchi llewys er mwyn achub pobl mewn trybini ar y môr gyda chriw'r bad achub lleol ym Miwmares.



Sul, 6 Mehefin – Caniadaeth y Cysegr, 7:30yb a 4:30yp
Ailddarllediad o raglen yn ymwneud ag Eisteddfod yr Urdd.
Steffan Rhys Hughesys sy'n cyflwyno


Sul, 6 Mehefin – Oedfa Radio Cymru, 12:00yp
yng ngofal Geraint Morse, Treletert

Ffrydiau melys iawn ... Sasiwn Cenhadol Rhithiol Chwiorydd y De

Sasiwn Cenhadol go wahanol a gafwyd yn 2021, ond er hynny bu'n gyfarfod hynod fendithiol. Mae ein diolch a'n gwerthfawrogiad yn fawr i'r Parch Lona Roberts, Llywydd Chwiorydd y De, am baratoi'r gwasanaeth gyda'i thrylwyredd arferol. Rhaid hefyd fynegi ein dyled i Huw Roberts a Cerian Angharad am ofalu am yr ochr dechnegol.

Llywyddwyd yr oedfa gan y Parch Lona Roberts, a estynnodd groeso i'r aelodau yn y gobaith y gellid dweud ar ddiwedd y cyfarfod mai 'da i ni oedd fod yna'. Cyddarllenwyd Datganiad y Chwiorydd a chyflwynwyd gweddi gan y Parch Lona Roberts. Gofynnwyd am fendith ar yr oedfa ac chofwyd yn arbennig am ein cyfeillion yn India yn eu gwewyr y dyddiau hyn.

Canwyd yr emyn 'Cyn llunio'r byd' o waith Pedr Fardd gan Mair Long a chyflwynwyd darlenniadau 'Gwledd ar Fynydd Seion' gan Bethan Richards a 'Dameg y Wledd Fawr' gan Nans Couch.



Yr Athro E Wyn James

Wedi datganiad hyfryd Gareth Rhys Davies o'r emyn 'Hyfryd lais efengyl heddd', croesawyd yr Athro E Wyn James i annerch ar y testun 'Pedr Fardd a'i Weledigaeth Genhadol' – testun priodol ar gyfer Sasiwn Cenhadol.

Pedr Fardd (1775–1845) yn sicr yw trydydd prif emynydd Cymru, gyda'i ddyhead am ledaenu'r Efengyl Gristnogol ledled y byd. Yn wreiddiol o Eifionydd, treuliodd Pedr Fardd y rhan helaethaf o'i oes yn Lerpwl, lle y trawsblannodd ei ddiwylliant a'i grefydd. Yn y cyfnod hwn roedd rhai miloedd o Gymry Cymraeg yn byw yn Lerpwl, ac erbyn 1900 roedd y boblogaeth Gymraeg wedi tyfu i 100,000. Dim rhyfedd, felly, fod 12 o gapeli gan y Methodistiaid yn unig yno.

Etifeddodd Pedr Fardd gan ei dad ffrwd farddonol yn ogystal â ffrwd grefyddol, Fethodistaidd ac efengylaidd. Fe'i codwyd yn flaenor yn Eglwys Pall Mall. Fel ei dad, teiliwr oedd wrth ei alwedigaeth, a daeth yn athro ysgol dan nawdd y Methodistiaid Calфинаidd. Roedd yn gynhyrchiol fel bardd ond fel emynydd y daeth yn amlwg. Cyfansoddodd ei emyn 'Daeth ffrydiau melys iawn' pan oedd yn 15 oed ac fe'i cyhoeddwyd pan oedd yn 20 oed yn *Grawnsypiau Canaan*, cyfrol a olygwyd gan Robert Jones, Rhoslan. Mae i Groes Crist le canolog yn ei emynau, gyda geiriau megis 'arfaeth', 'gras' a 'chyfamod' yn amlwg ynddynt.



Pedr Fardd (Llun drwy garedigrwydd yr Athro E Wyn James)

Yn 1830 cyhoeddwyd casgliad o'i emynau gydag adran o emynau cenhadol lle mae'n dyheu am i'r ffydd Gristnogol fod yn ffydd i'r holl genhedloedd, nid i'r Iddewon yn unig ond i'r byd cyfan. Mae ei emynau yn llawn hyder a sicrwydd y bydd yr efengyl Gristnogol yn llwyddo, ac mai dyletswydd pob Cristion yw lledaenu'r efengyl drwy'r byd. Yr un sicrwydd oedd gan ei gyd-Fethodistaidd, fel yng ngweledigaeth y mudiad cenhadol tramor a fynegwyd gan Williams Pantycelyn, 1774. Enghreifftiau eraill oedd sefydlu Cymdeithas Genhadol Llundain, 1795; sefydlu Cymdeithas y Beibl yn 1804, a Chymdeithas Genhadol

Dramor y Methodistiaid Calфинаidd yn Lerpwl yn 1840 ac anfon y cenhadwr cyntaf, Thomas Jones, i Fryniau Casia yng ngogledd-ddwyrain India.

Newidiwyd map y byd oherwydd y mudiad cenhadol yr oedd Pedr Fardd yn rhan ohono. Heddiw, mae traean o boblogaeth y byd yn arddel y ffydd Gristnogol, gweledigaeth yr oedd Pedr Fardd yn ei hyrwyddo. Ei ddyhead oedd gweld cyfiawnder a heddwch dros y byd yn sgil lledaeniad yr efengyl.

Yn yr emyn 'Cyn llunio'r byd' mae Pedr Fardd yn sôn am gynllun Duw yn lledaenu dros y byd, am groes a chyflawniad Crist, a ffrwyth gair Crist drwy'r byd. Mae 'Hyfryd lais efengyl heddd' yn estyn gwahoddiad i bawb i'r wledd, 'haul cyfiawnder' yn rhoi iachâd i'r byd drwy waed Crist ar y groes, a'r haleliwiau'n orfoleddus am yr efengyl sanctaidd.

Diolchwyd yn gynnes a diffuant i'r Athro E Wyn James am y pleser a'r fendith o wrando ar ei anerchiad ac am rannu ffrwyth ei holl waith ymchwil gyda ni.

'Myfi yw'r Bugail Da' yw thema Is-bwyllgor y Chwiorydd am eleni a diolchwyd i Sarah Morris am ei harweiniad a'r gwaith paratoi ar y deunyddiau i gyd-fynd â'r thema. Yn dilyn datganiad o 'Yr Arglwydd yw fy Mugail' ar gerdd dant gan Megan Bill, cafwyd cyfarchion gan Christine Hodgins, Llywydd Is-bwyllgor y Chwiorydd. Cyflwynodd Sarah Morris y deunyddiau a gyhoeddwyd yn y llawlyfr ar gyfer eleni. Mae'n cynnwys myfyrdodau personol, gwasanaethau ar gyfer eglwysi, gwaith llaw, tystiolaethau personol o'r Bugail Da, ac adroddiad am y gwaith cenhadol dramor yn India a Lesotho. Mae'r pecyn hefyd yn cynnwys cryno-ddisg ag amlinelliad o wasanaethau ar y thema.

Derbyniwyd adroddiad gan y Trysorydd, Mrs Molly Thomas, oedd yn nodi'r cyfraniadau a dderbyniwyd ar gyfer 2020. Anfonwyd £7,516.82 tuag at waith Is-bwyllgor y Chwiorydd.

Croesawyd Sasiwn Cenhadol 2022 i Eglwys y Gopa, Pontarddulais, gan Annie Derrick, a'n gweddi yw y cawn gydggyfarfod yno ar 19 Mai 2022.

Diweddwyd yr oedfa gyda'r emyn 'Diolch i Ti, yr Hollalluog Dduw' ac offrymwyd y fendith gan y Parch Lona Roberts.

Nans Couch
Ysgrifennydd

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Arglwydd y gwybed

Byddwn yn canolbwyntio dros yr wythnosau nesaf ar y bobl a ddaeth at Iesu a'r ffordd yr oedd Iesu'n ymateb iddyn nhw.

Emyn 356 – 'O na chawn i olwg hyfryd'

Darllen – Marc 3:13–19

Myfyrdod 1

Drwy ei arddull gynnil mae Marc, yn yr adran hon, yn ein tywys i ryfeddu at ymateb gwahanol rai i Iesu.

Ar fynydd Sinai comisiynwyd Moses gan yr Arglwydd i arwain ei bobl i ryddid. Yn awr, ar fynydd anhysbys, gwelwn Iesu'n cyfarfod â'i ddisgyblion. Y cyfarfod a'r comisiynu gan Iesu, nid y lleoliad, sydd flaenaf ym meddwl Marc.

Yno ar y mynydd 'galwodd ato' y criw cymysg fyddai'n ddisgyblion 'gydag ef' cyn iddynt fod yn apostolion i'w eglwys ac yn dystion ym mhob cwr o'r byd. Yn groes i arfer ei ddydd, Iesu wahoddodd ac a alwodd ei ddisgyblion ato. Yn wir, gallai ddweud wrthynt yn ddiweddarach nad nhw a'i dewisodd ef (sef arfer ei ddydd) ond mai ef a'i galwodd nhw i'w ganlyn ac i ddwyn ffrwyth (Ioan 15:16). Nid eu 'penderfyniad' neu eu dewis hwy, yn y lle cyntaf, oedd bod yn ddisgyblion iddo. Ac fe dystiwn ninnau hyd heddiw ein bod ni'n ei garu ef am iddo yn gyntaf ei caru ni a'n geni o'r newydd i fywyd newydd gras.

Darllen – Marc 3:20–21

Myfyrdod 2

Wedi dychwelyd o'r mynydd, rhoddodd Arglwydd ei eglwys urddas neilltuol ar yr hyn sy'n gyffredin, gan fynd 'i'r tŷ'. Nid yw harddwch y palas cyfoethocaf i'w gymharu â harddwch yr aelwyd fwyaf distadl y mae Iesu'n aros ynddi.

Gwyddai mam a brodyr a chwiorydd Iesu fod ei weinidogaeth gyhoeddus wedi denu sylw drwy Galilea gyfan. Gymaint oedd ei brysurdeb 'nes eu bod yn methu cymryd pryd o fwyd hyd yn oed' (adn 21). Ond, heblaw am ei amddiffyn rhag y dyrfa, mae'n amlwg fod ei fam a'i frodyr a'i chwiorydd yn poeni am iechyd meddwl Iesu.

Dychmygwch frawd i chi'n dweud wrthynt ei fod wedi bod mewn cyfarfod cyhoeddus gyda phroffwyd gwyllt yn yr anialwch, ei fod wedi'i fedyddio, a'i fod wedi clywed

llais Duw yn tystio'i fod yn Fab Duw oedd yn plesio Duw. Neu, beth am yr ysbrydion aflan a fynnai ei gyfarch fel 'Mab Duw' neu fel 'Sanct Duw' pan ddaethant wyneb yn wyneb ag ef. Ac roedd yn gweithio'n ddiarbed fel pe bai amser yn ei erbyn. Pwy allai fyw o dan y fath bwysau? (Gallwn ddychmygu ei deulu'n hel meddyliau o'r fath.) Ac fe wyddai'r teulu hefyd fod yna elynion o'r gyfundrefn grefyddol oedd yn bryderus am ei ddylanwad. Roeddylt ar ei warthaf, fel yr adar ysglyfaethus gasglodd i ddiola Ioan Fedyddiwr. Felly 'pan glywodd ei deulu, aethant allan i'w atal ef, oherwydd dweud yr oeddent, "Y mae wedi colli arno'i hun"' (adn 21).

Beth, tybed, fyddai ein hymateb ni wedi bod i amgylchiadau o'r fath?

Darllen – Marc 3:22

Myfyrdod 3

Gallwn ddychmygu'r ysgrifenyddion, oedd ar ymweliad â Galilea. Pobl ofalus oeddylt, pobl oedd yn cynrychioli'r sefydliad crefyddol oedd yn amheus o'r proffwyd hunan-ordeiniedig hwn. Wedi'r cyfan, roedd sawl gau-Feseia wedi codi i darfu ar eu hoes a chynhyrfu'r Rhufeiniaid oedd yn eu llywodraethu.

Ac fel pob bwli ofnus, dechreuodd yr ysgrifenyddion ar y dasg o bardduo Iesu drwy ei wawdio a chynnig dehongliad amgen o'i allu.

Oedd ysbrydion aflan yn ufuddhau iddo go iawn? Pwy, tybed, oedd wedi'i benodi? Pa awdurdod oedd ganddo go iawn? Wedi'r cyfan, doedd o ddim yn un ohonom 'ni'.

Gwawd felly oedd yr islef i'r ymosodiad cyntaf. Pwy yw Iesu o Nasareth go iawn? Buan y trodd y gwawd yn bardduo. Hyd yn oed pe bai ganddo bwerau, meddent, nid Beelsebwl mo hwn (Beelsebwl – llygriad, mae'n debyg, o'r enw Baal-sebwl, sef duw Ekron, duw'r Philistiaid gynt, a chyfeiriad, efallai, at Zeus, prif dduw pantheon Groeg.). Pennaeth y cythreuliaid? Na, grym pitw Beelsebwl, 'arglwydd y gwybed', yr oedd Iesu'n ei gynrychioli.

Nid yw ymosodiadau cyhoeddus yn gorfod bod yn gyson. Er mwyn pardduo rhywun, mae'n well taflu cymaint o laid a biswail ag sy'n bosib gan obeithio y bydd rhywfaint ohono'n glynu!

Felly, mae'r ail ymosodiad yn ddatblygiad ar yr awgrym mai pŵer dieflig yr oedd Iesu'n ei gynrychioli. Efallai ei fod wedi bwrw allan gythreuliaid go iawn – a hynny am ei fod ef ei hun yn cynrychioli pŵer amgen, cryfach, mwy grymus.

Darllen – Marc 3:23–30

Myfyrdod 4

Mae ateb Iesu'n glir ac yn ddadlennol. All teyrnas ranedig, meddai, fyth sefyll. Onid yw'n fwy tebygol na ellir rheibio teyrnas un cadarn heb fod rheibiwr y deyrnas honno yn gryfach ac yn fwy? Rhaid rhwymo'r un cryf cyn ysbeilio'i deyrnas.

Er mor ansicr oedd ei deulu ynghylch pwy oedd Iesu, neu er mor aneglur oedd dealltwriaeth ei ddisgyblion ohono, roedd goleuni a maddeuant yn bosib. Hyd yn oed i'r gwrthryfelwr mwyaf ystyfnig, y cablwr mwyaf soffistigedig, i'r galon galetaf un, mae maddeuant yn bosib. I Pedr, a'i gwadodd deirgwaith, roedd maddeuant. I Paul, a fu gynt yn ei gablu, yn ei erlid, ac yn ei sarhau, roedd trugaredd am bopeth yr oedd wedi'i gredu a'i wneud mewn anwybodaeth ac anghrediniaeth. Rhyfeddol yw gras Iesu Grist (1 Timotheus 1). Ond nid oes maddeuant i'r rhai sy'n galw'r glân yn aflan, y nos yn ddydd, y gau yn wirionedd, y ffaidd yn drysor. I'r sawl sy'n gwadu ac yn gwrthod dwyfol, sanctaidd darddiad Mab Duw, nid oes maddeuant.

Darllen – Marc 3:31–5

Myfyrdod 5

Er dallineb a phryder ei fam a'i frodyr a'i chwiorydd, roeddylt 'yn dal i'w geisio'. A thra bydd cynulleidfia o bobl sy'n dal i geisio Iesu, a phobl sy'n ceisio 'gwneud ewyllys Duw', bydd perthynas â'r Arglwydd nid yn unig yn ddymunol, nid yn unig yn bosibl, ond yn realiti. Mae'r gwahoddiad i'r 'pwy bynnag' i gydnabod ac addoli a gwasanaethu Duw drwy'r Ysbryd Glân yn Iesu Grist yn faint na threiddia tragwyddoldeb i'w ddyfnderoedd.

Cyfle i weddio'n dawel

Emyn 589 – 'Ysbryd graslon, rho i mi'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)